YSGOL Y CREUDDYN

CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

2015

Ysgol y Creuddyn

Cynllun Cydraddoldeb Strategol
2015 – 2019

Cynllun Cydraddoldeb Strategol a gytunwyd gan y llywodraethwyr:

….……..……. ……(Llofnodwyd gan y Cadeirydd)

……Dyddiad

Cynllun i'w adolygu: …….....*(dyddiad):*

Cynnwys ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS)

1. Ein cymeriad, gwerthoedd, blaenoriaethau ac amcanion nodedig 4

1.1 Gwerthoedd yr ysgol
1.2 Nodweddion ein hysgol
1.3 Prif ffrydio cydraddoldeb mewn polisi ac ymarfer
1.4 Pennu ein hamcanion cydraddoldeb

2. Cyfrifoldebau 6

2.1 Corff Llywodraethol
2.2 Uwch Dîm Arweinyddiaeth
2.3 Staff – addysgu ac nad ydynt yn addysgu

3. Casglu gwybodaeth ac ymgysylltu 7

3.1 Diben a phroses
3.2 Mathau o wybodaeth a gesglir
3.3 Ymgysylltu

4. Asesiad Effaith Cydraddoldeb 9

5. Amcanion a Chynlluniau Gweithredu 10

6. Cyhoeddi ac adrodd 10

7. Monitro ac Adolygu 11

Atodiadau

Atod. 1 Amcanion a Meysydd Gweithredu Cydraddoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Atod. 2 Cynllun Gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnwys camau gweithredu corfforaethol ar gyfer addysg/ysgolion

Atod. 3 Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu Ysgol Ychwanegol

Atod. 4 Cynllun Mynediad yr Ysgol

Atod.5 Siart broses ar gyfer datblygu ac adolygu'r Polisi Cydraddoldeb

Atod.6 Canllawiau Asesu Effaith Cydraddoldeb

Ychwanegiad. 1 i Atod. 6 Cyhoeddiad CLILC – Risigau Cydraddoldeb Cyffredin mewn Addysg – Canllawiau ar asesu effaith mewn ysgolion

1. Ein Cymeriad, Blaenoriaethau ac Amcanion Nodedig

1.1 Gwerthoedd yr ysgol

Yn Ysgol y Creuddyn rydym yn ymrwymedig i sicrhau cydraddoldeb addysg a chyfle i'r holl ddisgyblion, staff, rhieni a gofalwyr sy'n derbyn gwasanaethau gan yr ysgol, ni waeth beth yw eu hanabledd, hil, rhyw, oedran, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, ailbennu rhyw, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil. Rydym yn ceisio datblygu diwylliant o ymgynnwys ac amrywiaeth sy'n galluogi pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol i deimlo'n falch o'i hunaniaeth, a chyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol.

Caiff cyflawniad disgyblion ei fonitro, a byddwn yn defnyddio'r data hwn i gefnogi disgyblion, codi safonau a sicrhau addysgu cynhwysol. Byddwn yn mynd i'r afael â gwahaniaethu drwy hyrwyddo cydraddoldeb yn gadarnhaol, herio bwlio ac ystrydebau a chreu amgylchedd sy'n hyrwyddo parch at bawb. Yn Ysgol y Creuddyn credwn fod amrywiaeth yn gryfder y dylid ei barchu a'i ddathlu gan bawb sy'n addysgu, ac yn dysgu yma, ac yn ymweld â'r ysgol.

1.2 Nodweddion ein hysgol

Mae’r Creuddyn yn Ysgol Uwchradd Penodedig Gymraeg, gyda 658 o ddisgylion, 47 o staff dysgu a 24 o staff cefnogi.

Mae 53% o’n disgyblion yn ferched a 47% yn fechgyn. Mae 7.2% yn gymwys ar gyfer cinio am ddim a 12.6% ar y gofrestr ADY. Cefndir ethnig mwyafrif ein disgyblion yw Gwyn Prydeinig/Cymraeg ond mae 1.4% o dras ethnig lleiafrifol – Affricanaidd, Caribi, Asiaidd.

O ran crefydd mae 48% yn Gristnogion. Crefyddau eraill yw Bwdiaid (0.3%), Mwslemiaid (0.3%), Iddewon (0.2%). Cymraeg yw iaith yr aelwyd i 23% o’r disgyblion a Saesneg i 77%.

Mae gennym ddisgyblion gydag anghenion corfforol, gan gynnwys clyw, golwg a symudoledd. Rydym yn ysgol gynhwysol sydd wedi ei addasu ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion symudoledd.

Mae’r holl staff yn Wyn Prydeinig/Cymraeg. Mae 34% o’n staff yn wrywol a 66% yn fenywol. Gall 86% o’n staff gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’r proffil oes o 22 hyd 84. Rydym yn dilyn canllawiau AALl Conwy parthed Recriwtio staff.

Fel ysgol rydym yn trin pawb yn gyfartal, waeth beth fo’u hoedran, rhyw, iaith, tuedd rhywiol, crefydd, cefndir ethnig, rhywioldeb, gofynion anabledd neu addysgol.

1.3 Prif ffrydio cydraddoldeb mewn polisi ac ymarfer

Yn ogystal â'r camau penodol a amlinellir yn y cynllun hwn, mae'r ysgol yn gweithredu cyfle cyfartal yn ei harfer o ddydd i ddydd yn y ffyrdd canlynol.

Rydym yn ceisio rhoi'r cyfle i bob disgybl lwydd a chyrraedd y lefel uchaf o gyflawniad personol. I wneud hyn, byddwn yn:

- defnyddio data cyd-destunol i wella'r ffyrdd rydym yn darparu cefnogaeth i unigolion a grwpiau o ddisgyblion;
- monitro data cyflawniad yn ôl y nodweddion amrywiol a warchodir a chymryd camau mewn perthynas ag unrhyw fylchau;
- ystyried cyflawniad yr holl ddisgyblion wrth gynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol a gosod targedau heriol;
- sicrhau cydraddoldeb mynediad i'r holl ddisgyblion a'u paratoi ar gyfer bywyd mewn cymdeithas amrywiol;
- defnyddio deunyddiau sy'n adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth yr ysgol a'r gymuned leol o ran y nodweddion amrywiol a warchodir, heb ystrydebau;
- hyrwyddo agweddau a gwerthoedd a fydd yn herio ymddygiad hiliol a gwahaniaethol arall neu ragfarn;
- darparu cyfleoedd i ddisgyblion werthfawrogi eu diwylliant eu hunain a dathlu amrywiaeth diwylliannau eraill;
- ceisio cynnwys yr holl rieni wrth gefnogi addysg eu plant;
- annog trafodaeth yn yr ystafell ddosbarth a'r ystafell staff am faterion cydraddoldeb sy'n myfyrio ar ystrydebau cymdeithasol, disgwyliadau a'r effaith ar ddysgu;
- cynnwys dulliau addysgu ac ystafell ddosbarth sy'n briodol i boblogaeth yr ysgol gyfan, sy'n gynhwysol ac yn adlewyrchu ein disgyblion
- Sicrhau fod adeiledd a tir yr ysgol yn caniatau mynediad diogel i bawb yn ddiwahan.

1.4 Pennu ein hamcanion cydraddoldeb

Rydym yn cydnabod ein dyletswydd a'n cyfrifoldeb i sefydlu cydraddoldeb i'n holl ddysgwyr, staff, aelodau eraill cymuned yr ysgol a defnyddwyr gwasanaeth, ni waeth beth yw eu hil, rhyw, anabledd, ailbennu rhyw, tueddfryd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred, priodas neu bartneriaeth sifil fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Diben ein **Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS)** yw cyflawni'r dyletswyddau i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl â 'nodweddion a warchodir', a gwreiddio tegwch a chydraddoldeb yng nghalon cymuned ein hysgol ac ym mhob agwedd ar gynlluniau a pholisïau ein hysgol.

Wrth bennu'r amcanion cydraddoldeb ar gyfer yr ysgol hon, byddwn yn rhoi ystyriaeth briodol i ddyletswydd gyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb:

1. Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf;
2. Datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir perthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu; mae hyn yn golygu
    a. dileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir berthnasol sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno

   b. cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir berthnasol sy'n wahanol i anghenion y bobl nad ydynt yn ei rhannu
   c. annog pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir berthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall ble mae cyfranogaeth gan bobl o'r math yn anghymesur o isel
3. Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir berthnasol a'r bobl nad ydynt yn ei rhannu

Pennir ein CCS ac Amcanion Cydraddoldeb yng ngoleuni'r canlynol:

- Yr amcanion cydraddoldeb rhanbarthol a nodwyd yn **atodiad 1;**
- barn a fynegwyd gan randdeiliaid sydd wedi bod yn rhan o ddatblygu'r cynllun;
- materion sy'n codi o ganlyniad i ddadansoddi ein data disgyblion e.e. cyrhaeddiad bechgyn o'u cymharu â merched a grwpiau eraill;

Bydd cyflwyno ein CCS yn cyfrannu at ein holl gamau gweithredu a'n hymrwymiadau i:

- godi safonau;
- lleihau'r bwlch cyrhaeddiad mewn deilliannau i blant a phobl ifanc;
- gwella deilliannau fel y'u disgrifir yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CPPI);
- hyrwyddo cydlyniant cymunedol

Amlinellir Amcanion Cydraddoldeb yr Ysgol yn **adran 5 (t.10). Hefyd, gweler Atodiad 2 ac Atodiad 3.**

2. Cyfrifoldebau

2.1 Corff Llywodraethol

Mae'r corff llywodraethol wedi nodi ei ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y cynllun hwn, a bydd yn parhau i wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod yr ysgol yn gwbl gynhwysol i ddisgyblion, ac yn ymateb i'w hanghenion, yn seiliedig ar y nodweddion a warchodir amrywiol. Mae'r Corff Llywodraethol yn:

- ceisio sicrhau na wahaniaethir yn erbyn pobl wrth iddynt wneud cais am swyddi yn ein hysgol
- cymryd yr holl gamau rhesymol i sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn rhoi mynediad i bobl ag anableddau, a hefyd yn ymdrechu i wneud cyfathrebu mor gynhwysol â phosib i rieni, gofalwyr a disgyblion
- sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw blentyn pan fydd yn ein hysgol

Er mwyn cyflawni ei ddyletswydd adrodd, bydd y corff llywodraethol yn adrodd ar gynnydd y CCS bob blwyddyn, fel rhan o'i Adroddiad Blynyddol i rieni.

2.2 Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)

Mae'r UDA yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn dileu gwahaniaethu drwy:

- roi CCS yr ysgol ar waith, gyda chefnogaeth y Corff Llywodraethol wrth wneud hynny;
- sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau o dan y ddeddf ac wedi'u hysbysu'n llawn am CCS ac amcanion cydraddoldeb ein hysgol;
- sicrhau bod yr holl baneli penodi yn ystyried y cynllun hwn, fel na wahaniaethir yn erbyn unrhyw un o ran cyfleoedd cyflogaeth neu hyfforddiant;
- hyrwyddo egwyddor cyfle cyfartal wrth ddatblygu'r cwricwlwm, a hyrwyddo parch at bobl eraill a chyfle cyfartal i gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol;
- trin holl achosion triniaeth annheg ac unrhyw achosion o fwlio neu wahaniaethu, gan gynnwys digwyddiadau hiliol, yn ôl polisïau'r awdurdod a'r ysgol
- sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o hyn

2.3 Staff – addysgu ac nad ydynt yn addysgu

Mae'r ysgol yn ystyried cydraddoldeb i bawb yn gyfrifoldeb i bawb. Mae pob aelod o staff yn cyfrannu at sicrhau bod ein hysgol yn gymuned deg, gyfiawn a chydlynol drwy:

- sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael eu trin yn deg, yn gyfartal a chyda pharch, a bydd yn cynnal ymwybyddiaeth o CCS yr ysgol;
- ymdrechu i ddarparu deunydd a fydd yn rhoi delweddau cadarnhaol yn seiliedig ar nodweddion a warchodir ac yn herio delweddau ystrydebol;
- herio unrhyw achosion o ragfarn, hiliaeth neu homoffobia, a chofnodi unrhyw ddigwyddiadau difrifol fel y rhagnodir ym mholisïau'r ALl a'r ysgol e.e. adrodd am ddigwyddiadau hiliol;
- cefnogi gwaith staff atodol a chefnogi a'u hannog i ymyrryd mewn ffordd gadarnhaol yn erbyn unrhyw ddigwyddiadau gwahaniaethol

3. Casglu gwybodaeth ac ymgysylltu

3.1 Diben a phroses

Mae casglu gwybodaeth yn hanfodol i’n cefnogi i benderfynu pa gamau gweithredu i’w cymryd i wella cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu yng nghymuned yr ysgol. Yn dilyn hyn, mae’r wybodaeth hefyd yn ein helpu i adolygu ein perfformiad, felly mae’n rhaid iddi fod yn ddigon manwl i’n galluogi i fesur sut rydym yn cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb. Mae’r wybodaeth hefyd yn ein helpu i wneud asesiad effaith manwl gywir a nodi pa rai o amcanion yr ysgol a gyflawnwyd, a’r hyn y mae angen i ni ei wneud yn well.

Mae ymgysylltu yn seiliedig ar yr wybodaeth a gasglwyd ynghylch cynrychiolaeth grwpiau gwahanol. Rydym yn ceisio gwneud hyn mor llawn â phosib wrth gydnabod materion sensitifrwydd o ran y gwahanol nodweddion a warchodir. Rydym yn cymryd camau penodol i sicrhau bod plant a phobl ifanc anabl, rhieni a gofalwyr yn cael eu cynnwys yn ôl eu hawl. Y rheswm pam mae’r cynnydd hwn yn bwysig yw er mwyn deall holl amrywiaeth anghenion cymuned yr ysgol.

3.2 Mathau o wybodaeth a gesglir

Mae'r amrywiaeth eang o wybodaeth a gesglir i gefnogi ein cynllunio a chamau i hyrwyddo cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu yn cynnwys y canlynol:

- canfod barn disgyblion, rhieni/gofalwyr, staff, llywodraethwyr a grwpiau cymunedol am faterion cydraddoldeb;
- nodi plant a phobl ifanc, rhieni, gofalwyr, staff a defnyddwyr eraill yr ysgol sy'n cynrychioli'r nodweddion a warchodir gwahanol, os yw'n bosib ac yn briodol. Mae hyn yn ein helpu i ddatblygu a monitro'r cynllun. Gwneir ymdrechion cynhwysfawr a sensitif i gasglu gwybodaeth gywir a bodloni gofynion diogelu data, yn ogystal â'n dyletswydd i sicrhau gwybodaeth gywir sy'n ymwneud ag ethnigrwydd a mamiaith;
- cyrhaeddiad disgyblion a data cynnydd sy'n ymwneud â grwpiau gwahanol;
- ceisio barn plant a phobl ifanc a'u cynnwys mewn ffordd sy'n gweld gwerth i'w cyfraniad;
- gwybodaeth am sut mae grwpiau gwahanol yn cael mynediad i'r cwricwlwm cyfan a sut maent yn gwneud dewisiadau rhwng y dewis o bynciau;
- dewisiadau chwaraeon a gweithgareddau fesul grŵp;
- gweithgareddau cyfoethogi fesul grŵp
- dadansoddi data gwaharddiadau wedi'i ddadansoddi fesul grŵp;
- cofnodion bwlio ac aflonyddu ar sail unrhyw fater cydraddoldeb
- data ar recriwtio, datblygu a chadw gweithwyr;
- canlyniadau gweithgareddau sy'n hyrwyddo ymgysylltu cymunedol a chydlyniant cymunedol;
- canlyniadau camau a gymerwyd i sicrhau cynnwys rhieni ac eraill y nodwyd ei bod yn anodd ymgysylltu â hwy;

3.3 Ymgysylltu

Mae'r ysgol yn cynnwys **rhanddeiliaid** gan gynnwys plant a phobl ifanc, staff, rhieni/gofalwyr, llywodraethwyr a phobl eraill sy'n defnyddio'r ysgol o ran dyletswyddau cydraddoldeb. Rydym yn ystyried dulliau cyfathrebu o ddewis y rhai rydym yn ymgynghori â hwy e.e. deunydd a gyfieithwyd neu gyfleusterau dehongli ar gyfer pobl anabl neu'r sawl y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt neu sydd newydd gyrraedd y wlad hon.

Ystyrir barn rhanddeiliaid a grwpiau eraill sy'n ymwneud â chydraddoldeb o ddifrif wrth i ni bennu blaenoriaethau.

Sut rydym wedi datblygu ein polisi – Cyfranogiad ac Ymwneud

Bydd datblygu'r polisi hwn yn cynnwys ein cymuned ysgol gyfan. Byddwn yn cynnwys a gwrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud, gan gynnwys pobl o gefndiroedd eang ac amrywiol ac o wahanol alluoedd, gan gymryd ystyriaeth o'r holl nodweddion a warchodir a restrir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

- **Ein disgyblion/myfyrwyr**

Bydd barn ein disgyblionyn cael ei gasglu trwy gyfrwng y Cyngor Ysgol.

- **Ein staff**

Trwy dynnu sylw pob aelod o staff i'r cynllun drafft a gwahodd sylwadau a thrafodaethau erbyn dyddiad penodol.

- **Ein llywodraethwyr ysgol**

Trwy rannu'r cynllun drafft a gwahodd sylwadau.

- **Rhieni/gofalwyr**

Trwy hysbysu rhieni ym mwletin yr ysgol a gwahodd cyfraniadau. Hefyd trwy safwe'r ysgol.

- **Grwpiau lleiafrifol, ffiniol a diamddiffyn posib**

Gofynir am gyfraniad gan aelodau o bob grwp ac fe fydd y Cynllun Strategol Cydraddoldeb ar gael yn rhwydd i bawb.

- **Ein partneriaid yn y gymuned**

Trwy ofyn am gyfraniadau ar safwe'r ysgol.

- **Parhaol:**

Trwy adolygu'r cynllun yn flynyddol a'i hysbysebu ar safwe'r ysgol ac yn llawlyfr yr ysgol.

4. Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Mae asesiad effaith yn cyfeirio at adolygu'r holl gynlluniau a pholisïau presennol ac arfaethedig er mwyn ein helpu i weithredu i hyrwyddo cydraddoldeb ac i sicrhau nad yw unrhyw un o dan anfantais o ganlyniad i weithgareddau'r ysgol oherwydd gwahaniaethu. Mae asesiadau effaith yn broses barhaus i sicrhau bod cynlluniau a pholisïau'r ysgol yn cael eu datblygu mewn ffordd gynhwysol a theg.

Fel rhan o gydymffurfio'r ysgol hon â dyletswyddau penodol y Ddeddf, byddwn yn parhau i gyflawni asesiad effaith o bob polisi a chynllun newydd cyn ei roi ar waith. Yn yr un modd, byddwn yn cyflawni asesiad effaith o'n polisïau a'n cynlluniau presennol pryd bynnag y cânt eu hadolygu. Yn y modd hwn, caiff asesiadau effaith eu cynnwys yn nhrefn adolygu a diwygio pob polisi'r ysgol.

Ble mae asesiadau effaith wedi'u cyflawni, byddant yn dylanwadu ar newidiadau i bolisi ac adolygiad y CCS ei hun.

D.S. Cyfeiriwch at Atodiad 6 i gael canllawiau ar asesu effaith mewn ysgolion.

5. Amcanion a Chynlluniau Gweithredu

Yn ychwanegol at Amcanion Cydraddoldeb a chamau gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a gytunwyd yn gorfforaethol (gweler Atodiad 1 a 2), ein Hamcanion Cydraddoldeb dewisedig yw:

1. Sicrhau nad oes rwystr i gynnydd addysgol dysgwyr sydd yn y categoriau a restrir yn 1.1.
2. Sicrhau nad oes bwlio neu aflonyddu'n digwydd ar sail y categoriau a restrir yn 1.1
3. Codi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud ag amrywiaeth a chydraddoldeb ymhlith disgyblion, staff a llywodraethwyr.
4. Sicrhau mynediad dirwystr i bod dysgwr i Ysgol y Creuddyn.

Mae gennym gynlluniau gweithredu sy'n cynnwys yr holl nodweddion a warchodir perthnasol (Atodiad 2 a 3). Mae'r rhain yn disgrifio sut rydym yn cymryd camau i gyflawni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol.

Mae ein cynlluniau gweithredu wedi'u croesgyfeirio â Chynllun Gwella'r Ysgol, sy'n sicrhau eu bod yn cael eu gwirio, eu monitro a'u gwerthuso'n drefnus.

Mae'r cynlluniau gweithredu'n dangos:

- amcanion a chamau gweithredu penodol
- effaith ddisgwyliedig a dangosyddion cyflawniad (meini prawf llwyddiant)
- amserlenni clir
- gan bwy y mae'r cyfrifoldeb arweiniol
- goblygiadau o ran adnoddau
- dyddiadau penodol ar gyfer asesiad effaith ac adolygiad.

Mae'r ysgol yn gwerthuso effeithiolrwydd y CCS yn rheolaidd, drwy'r corff llywodraethol a chydag Estyn pan gaiff yr ysgol ei harolygu.

6. Cyhoeddi ac adrodd

Mae'r ysgol yn darparu copi o'i CCS a'i chynllun gweithredu i gyflawni ei hamcanion cydraddoldeb mewn amrywiaeth o fformatau ac yn sicrhau ei fod ar gael i rieni/gofalwyr ac eraill, gan gynnwys y sawl y nodir ei bod yn anodd ymgysylltu â hwy. Mae prosbectws yr ysgol yn cynnwys cyfeiriad at y CCS a'r gwerthoedd sy'n sail iddo.

Mae'r ysgol yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wnaed ar y cynlluniau gweithredu ac effaith y CCS ei hun ar ethos yr ysgol ac arfer yn yr ysgol. Cyflawnir hyn fel rhan o Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr.

Caiff yr holl ddata a gesglir ei ddefnyddio at ddibenion dadansoddi tueddiadau, fesul nodwedd a warchodir, o ran perfformiad, defnyddio gwasanaethau a gynigir gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol a'u boddhad ohonynt. Caiff gwybodaeth o'r fath ei storio ar wahân i wybodaeth bersonol sy'n nodi'r unigolyn. Er mwyn amddiffyn hunaniaeth yr unigolion pan gyhoeddir gwybodaeth am dueddiadau, ni chyhoeddir unrhyw gyfrif sy'n cynnwys llai na 5 unigolyn.

7. Monitro ac Adolygu

Fel rhan o'n cyfrifoldeb am fonitro'r CCS, rydym yn ymrwymo i:

- ailedrych ar yr wybodaeth a'r data a ddefnyddiwyd i nodi blaenoriaethau ar gyfer y CCS a'r cynlluniau gweithredu, a'i ddadansoddi. Mae hyn yn cynnwys defnyddio trosolwg o'r canlyniadau;
- defnyddio'r asesiadau effaith i sicrhau bod y camau gweithredu a gymerwyd yn cael effaith gadarnhaol ar draws yr holl nodweddion a warchodir, bod hyrwyddo cydraddoldeb yn ganolog i gynllunio'r ysgol a bod gwahaniaethu'n cael ei ddileu'n effeithiol.

Mae adolygu'r CCS yn cyfeirio'r gwaith o'i ddiwygio, pennu blaenoriaethau newydd a chynlluniau gweithredu. Mae'r broses hon yn parhau i:

- gynnwys amrywiaeth llawn o randdeiliaid;
- bod yn seiliedig ar dystiolaeth – defnyddio gwybodaeth a data mae'r ysgol wedi'u casglu a'u dadansoddi;
- defnyddio'r dystiolaeth i gynnal asesiad effaith manwl gywir a fydd yn cyfeirio blaenoriaethau

Byddwn yn cynnal adolygiad llawn o'n CCS erbyn mis Medi 2019.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015 - 2019

Atodiadau

Atodiad 1 Amcanion Cydraddoldeb a Meysydd Gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Atodiad 2 Cynllun Gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnwys camau gweithredu corfforaethol ar gyfer addysg ac ysgolion.

Atodiad 3 Amcanion Cydraddoldeb Ysgol Ychwanegol a Chynllun Gweithredu

Atodiad 4 **Cynllun Mynediad yr Ysgol.**

Atodiad **5** **Siart Broses ar gyfer datblygu ac adolygu Polisi Cydraddoldeb**

Atodiad **6** **Canllawiau Asesu Effaith Cydraddoldeb**

Ychwanegiad 1 i Atodiad **6** **Cyhoeddiad CLILC "Risgiau Cydraddodleb Cyffredin mewn Addysg – Canllawiau ar gyfer asesu effaith mewn ysgolion"**

Amcanion a Meysydd Gweithredu Cydraddoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy **ATODIAD 1**

1. Gostwng anghydraddoldebau o ran **Iechyd**

Maes Gweithredu 1.1	Nifer y bobl sydd mewn grwpiau a dangynrychiolir, sy'n dewis ffyrdd iach o fyw yn cynyddu
Maes Gweithredu 1.3	Gofal ar gyfer pobl hŷn yn cael ei wella i sicrhau eu bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch
Maes Gweithredu 1.5	Pobl drawsrywiol, lesbiaid, hoyw a deurywiol yn cael eu trin gydag urddas a pharch wrth gael gofal
Maes Gweithredu 1.6	Anghenion pobl gydag Anableddau Dysgu a phroblemau Iechyd Meddwl yn cael eu deall yn well

2. Gostwng canlyniadau anghyfartal o ran **Addysg** er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial unigolion

Maes Gweithredu 2.1	Bwlch cyflawniad addysgol rhwng y gwahanol grwpiau yn gostwng
Maes Gweithredu 2.2	Bwlio yn seiliedig ar hunaniaeth mewn ysgolion yn gostwng

3. Gostwng anghydraddoldebau o ran **Cyflogaeth a Thâl**

Maes Gweithredu 3.1	Anghydraddoldebau o ran prosesau recriwtio, cadw, hyfforddi a dyrchafu yn cael eu canfod a'u trin
Maes Gweithredu 3.2	Unrhyw fylchau mewn cyflogau rhwng gwahanol nodweddion a ddiogelir yn cael eu nodi, ac ymdrin â nhw

4. Gostwng anghydraddoldebau o ran **diogelwch** personol

Maes Gweithredu 4.1	Nifer y digwyddiadau o adrodd ynghylch trosedd ac aflonyddwch mewn perthynas â chasineb yn cynyddu a chamau'n cael eu cymryd i ostwng trosedd ac aflonyddwch mewn perthynas â chasineb
Maes Gweithredu 4.2	Nifer y digwyddiadau o riportio camdriniaeth ddomestig yn cynyddu a chamau'n cael eu cymryd i ostwng camdriniaeth ddomestig

5. Gostwng anghydraddoldebau o ran **Cynrychiolaeth a Llais**

Maes Gweithredu 5.1	Cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn dod yn fwy amlwg wrth gynrychioli'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu
Maes Gweithredu 5.2	Ymgynghoriad ac ymgysylltiad yn gwella trwy gryfhau'r cysylltiadau rhwng y Sector Cyhoeddus ac unigolion sy'n cynrychioli pobl leol o bob grŵp wedi'i ddiogelu

6. Gostwng anghydraddoldebau o ran cael **mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd**

Maes Gweithredu 6.1	Mynediad i wybodaeth a chyfathrebu a phrofiad y cwsmer yn gwella
Maes Gweithredu 6.2	Mynediad corfforol i wasanaethau, cludiant, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored yn gwella

Ysgol y Creuddyn
Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015 - 2019
Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu

Amcan Cydraddoldeb 1
Sicrhau nad oes rwystr i gynnydd addysgol dysgwyr sydd yn y categoriau a amddiffynir

Ein Hymchwil
Mae perfformiad y mwyafrif o grwpiau'n cymharu'n ffafriol â Chymru gyfan. Fodd bynnag mae yna fwlch yn dal i fodoli rhwng rhai categoriau – bechgyn:merched; PYD:Dim PYD; ADY:Dim ADY.

Gwybodaeth o Ymgysylltu:
Gweler yr uchod.

Datblygiad Data:
Data Ysgol gyfan
Adroddiadau Estyn
Data Cenedlaethol
Canlyniadau arholiadau allanol wedi ei ddadansoddi'n fewnol a'i gymharu gyda data Cymru gyfan.

Bernir bod yr amcan hwn yn llwyddiannus os yw…

Bod lleihad yn y bwlch cyrhaeddiad rhwng bechgyn:merched yn CA3/4.
Bod disgyblion ADY yn perfformio'n well na'r lefel cenedlaethol.
Bod disgyblion PYD yn perfformio'n well na'r lefel cenedlaethol.
Bod disgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol yn parhau i berfformio'n uwch na'r cyfartaledd.

Camau Gweithredu:

	Disgrifiad	Diweddariad canol blwyddyn (Medi)	Diweddariad blwyddyn lawn (Maw)	Cyfrifoldeb	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen	Nodwedd a warchodir
1.1	Mentora disgyblion Bl.10/11/12	Sicrhau fod pob disgybl yn cael ei fentora er mwyn cyrraedd ei lawn potensial. Cyfrifoldeb AE a Phenaethiaid Blwyddyn.			Medi 2015	Awst 2016:	Rhyw, ADY, cefndir ethnig, anabledd, PYD
1.2	Dadansoddi	Dadansoddi data targedau a chyrhaeddiad disgyblion.			Medi 2015	Gwanwyn 2016	" " "

	data	Cyfrifoldeb MD		
1.3	Cwricwlwm	Sicrhau fod cwricwlwm addas a heriol ar gyfer pob disgybl yn y grwpiau a amddiffynir. Cyfrifoldeb MD, AE a'r grwp Cynhwysiad.	Gwanwyn 2016	Medi 2016 " " "
1.4	Cefnogaeth a hyfforddiant	Cydweithio gyda swyddogion yr AALl ac asiantaethau eraill, megis y Gwasanaeth Iechyd i sicrhau gwybodaeth am ddisgyblion mewn grwpiau arbennig. MD, BAJ, Tim Cynhwysiad, Penaethiaid Blwyddyn	Medi 2015 (a phryd bynnag mae'n amserol	Parhaol " " "

Amcan Cydraddoldeb 2
Sicrhau nad oes bwlio neu aflonyddu'n digwydd ar sail y categoriau a amddiffynir

Ein Hymchwil
Er mai prin yw'r enghreifftiau, mae data yn dangos fod yna fwlio wedi digwydd ar sail y nodweddion a warchodir

Gwybodaeth o Ymgysylltu:
Mae arolygon disgyblion ynghyd a chofndion gwrth-fwlio'n dangos fod bwlio'n digwydd, er fod y lefelau'n isel.

Datblygiad Data:
Data o ffeil bwlio'r ysgol.
Data Cenedlaethol.
Tarfodaethau a holiaduron ymhlith disgyblion.

Bernir bod yr amcan hwn yn llwyddiannus os yw…

- Gostyngiad mewn enghreifftiau o fwlio ar sail y categoriau a amddiffynir.

Camau Gweithredu:

	Disgrifiad	Diweddariad canol blwyddyn (Medi)	Diweddariad blwyddyn lawn (Maw)	Cyfrifoldeb	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen	Nodwedd a warchodir
1.1	Llunio holiadur i ganfod	Llunio holiadur i ddisgyblion ar eu profiadau personol a'u canfyddiadau hwy o fwlio yn yr ysgol, ynghyd a'r hyn y medrid ei wneud i fynd i'r afael a'r mater. Cyfrifoldeb			Gwanwyn 2015	Haf 2015	Pob categori.

	canfyddiad disgyblion.	MD/OGD		
1.2	Adolygu cynnwys ein gwersi ABCh.	Adolygu cynnwys ein cwricwlwm ABCh. Sicrhau fod cyfeiriad cryf am gydraddoldeb ac amrywiaeth oddi fewn i gymdeithas. Cyfrifoldeb OGD.	Haf 2015	Medi 2016 Pob Categori.
1.3	Gwirio a diweddaru ein polisi gwrth fwlio.	Gwirio a diweddaru ein polisi gwrth fwlio i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cydraddoldeb . Cyfrifoldeb AR.	Gwanwyn 2015	Gwanwyn 2015 Pob Categori

Amcan Cydraddoldeb 3
Codi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud ag amrywiaeth a chydraddoldeb ymhlith disgyblion, staff a llywodraethwyr.

Ein Hymchwil
Mae ethos cyffredinol yr ysgol yn un gynhwysol a chynhaliol ond mae angen gweithio'n gyson i sicrhau ein bod yn deall ac ymfalchio yn yr amrywiaethau cymdeithasol sy'n bodoli o fewn ein cymuned.

Gwybodaeth o Ymgysylltu:
Mae angen sicrhau nad yw aelodau o gymuned yr ysgol yn syrthio i'r fagl o stereoteipio grwpiau gwahanol gyda priodweddau ystrydebol.

Datblygiad Data:
Holiaduron a Grwpiau Ffocws.

Bernir bod yr amcan hwn yn llwyddiannus os yw…

Arolygon disgyblion yn dangos dealltwriaeth am amrywiaeth a chydraddoldeb.
Arolygon staff yn dangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ymdrin a materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth.

Camau Gweithredu:

	Disgrifiad	Diweddariad canol blwyddyn (Medi)	Diweddariad blwyddyn lawn (Maw)	Cyfrifoldeb	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen	Nodwedd a warchodir
1.1	Hyfforddiant i staff	Hyfforddiant llawn i ddiweddaru staff am faterion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth. Cyfrifoldeb MD			Medi 2015	Parhaol	Pob Categori
1.2	Adolygu cynnwys ein	Adolygu cynnwys ein cwricwlwm ABCh. Sicrhau fod cyfeiriad cryf am gydraddoldeb ac amrywiaeth oddi fewn i			Haf 2015	Medi 2016	Pob Categori.

	gwersi ABCh.	gymdeithas. Cyfrifoldeb OGD.		
1.3	Trefnu hyfforddiant i lywodraethwyr.	Cyflwyno'r Cynllun Strategol Cydraddoldeb Drafft i lywodraethwyr. Hyfforddiant ar data a materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth. Cyfrfoldeb MD	Haf 2015	Haf 2016 Pob Categori

Amcan Cydraddoldeb 4 Sicrhau mynediad di rwystr i holl weithgareddau'r ysgol i bob disgybl sydd ag anabledd corfforol neu anghenion dysgu dwys.
Ein Hymchwil Mae cyfran o'n disgyblion sydd ag anabledd corfforol neu anghenion dysgu dwys.
Gwybodaeth o Ymgysylltu: Nid yw'r ysgol erioed wedi gwrthod mynediad i unrhyw ddisgybl ar sail anabledd corfforol neu anghenion dysgu dwys ond mae sefyllfaoedd newydd yn codi'n flynyddol ac mae angen i ni ymateb er mwyn sicrhau fod pob disgybl yn derbyn yr amrediad llawnaf bosibl o brofiadau.
Datblygiad Data: Cynllun Gwella'r Ysgol Data disgyblion. Trafodaethau gyda rhieni. Trafodaethau gyda swyddogion yr awdurdod.
Bernir bod yr amcan hwn yn llwyddiannus os yw… • Fod pob disgybl yn derbyn mynediad di-rwystr i holl weithgareddau'r ysgol.
Camau Gweithredu:

	Disgrifiad	**Diweddariad canol blwyddyn (Medi)**	**Diweddariad blwyddyn lawn (Maw)**	**Cyfrifoldeb**	**Dyddiad dechrau**	**Dyddiad gorffen**	**Nodwedd a warchodir**
1.1	Mynediad i gampws yr ysgol.	Sicrhau fod pob disgybl a mynediad llawn i gampws ac adeiladau'r ysgol. Os nad – yna trefnu i roi addasiadau yn eu lle, boed yn addasiadau peirianyddol neu trefniadol.			Adolygiad Blynyddol pob Haf.	Parhaol	Disgyblion ag anableddau neu ADY.

		Cyfrifoldeb – MD, Is-bwyllgor adeiladau, AE, AALl.		
1.2	Mynediad i gwricwlwm yr ysgol.	Sicrhau fod pob disgybl yn derbyn profiadau addysgol sy'n eu galluogi i gyrraedd ei llawn potensial. MD, AE, BAJ, Tim Cynhwysiad.	Haf 2015	Parhaol Disgyblion ag anableddau neu ADY.
1.3	Hyfforddiant staff	Hyfforddiant i staff ar unrhyw faterion sy'n ymwneud ag anableddau disgyblion. MD, MJa, CML.	Medi 2015	Parhaol Disgyblion ag anableddau neu ADY.

ATODIAD 4

YSGOL Y CREUDDYN – CYNLLUN MYNEDIAD 2015-2018

Mae Ysgol y Creuddyn yn gwbl ymwybodol o'i dyletswyddau yn unol â'r Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau (a ddaeth i rym ym Medi 2002) a chod ymarfer y comisiwn Hawliau Pobl Anabl (2002).

NODAU AC AMCANION

Mae Ysgol y Creuddyn wedi ymroi i sicrhau bod pobl anabl yn gallu cael mynediad i addysg o'r safon uchaf yn ôl eu hawl â'u hanghenion:

- Ochr yn ochr â'u cyfoedion heb unrhyw wahaniaethu annheg.
- Gyda mynediad i'r cwricwlwm cyfan

Mae Ysgol y Creuddyn wedi ymroi i sicrhau eu bod yn gwneud addasiadau rhesymol er mwyn sicrhau mynediad i bobl anabl.

Drwy'r cwricwlwm ac amgylchedd yr ysgol, bydd disgyblion yn cael eu haddysgu i werthfawrogi amrywiaeth a deall sut gall anghydraddoldeb effeithio ar fywydau pobl anabl. Bydd agwedd ysgol gyfan tuag at gyfleoedd cyfartal yn galluogi disgyblion i ddatblygu fel myfyrwyr actif a chyfrifol sy'n ystyriol tuag at eraill.

Prif flaenoriaethau'r cynllun.

- Cynyddu gallu'r disgyblion i gymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol. Bydd hyn yn cynnwys addysgu a dysgu ffurfiol a bydd yn ychwanegol at weithgareddau allgyrsiol ychwanegol fel clybiau a chymdeithasau, gweithgareddau hamdden ac ymweliadau.

- Gwella amgylchedd corfforol yr ysgol er mwyn sicrhau y gall disgyblion anabl gymryd mantais lawn o'r addysg a'r gwasanaethau cysylltiedig a ddarperir. Byddai hyn yn cynnwys newidiadau i'r adeilad, yr offer a threfniant yr ysgol.

- Gwella trosglwyddiad gwybodaeth i ddisgyblion anabl o'r wybodaeth honno a ddarperir i ddisgyblion nad ydynt yn anabl.

Mae'n angenrheidiol bod cynllun mynediad yr ysgol yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn ôl yr angen. Cynllun Gweithredu'r ysgol ynghlwm.

	Targedau	**Strategaethau**	**Canlyniad**	**Ffrâm Amser**	**Goliau a gyflawnwyd**
Mynediad ffisegol.	Estyniad ysgol i gydymffurfio â'r deddfwriaethau Iechyd a Diogelwch a DDA presennol.	Trafodaethau â swyddogion a Chontractwyr yr AALl.	Estyniad newydd yn gwbl weithredol	Wedi ei gwblhau	Mynediad corfforol yr ysgol wedi'i gynyddu.
	Sicrhau na ddefnyddir yr hen lifft. Sicrhau bod y lifft newydd yn cael ei chynnal a'i chadw'n rheolaidd.	Gwaith yn cael ei wneud gan gontractwr cymwys. Hyfforddiant i Tas.	Dadgomisiynu'r hen lifft. Lifft newydd yn gweithio'n iawn.	Wedi ei geblhau. Parhaus. – y lifft yn cael ei	Gwella mynediad corfforol pobl i'r ysgol

				wirio pob 6 mis gan weithwyr proffesiynol.	
	Sicrhau diogelwch ar y grisiau	Llawr gwrthslip newydd ar y grisiau.	Gorchudd llawr yn ei le.	Haf 2015	Cynyddu diogelwch disgyblion
	Sicrhau mynediad hawdd ar gyfer cadeiriau olwyn.	a) Rampiau newydd yn y cyrtiau. b) Rampiau allanol – amnewid y slabiau am darmac a choncrid. c) Drysau allanol i gael eu newid am ddrysau sy'n cydymffurfio â'r anghenion. d) Grisiau allanol i gael palmant cyffyrddol. e) Gosod canllawiau ar y rampiau a'r grisiau allanol.	Rampiau wedi eu gosod Drysau newydd wedi eu gosod.	Wedi ei gwblhau	Gwella mynediad corfforol pobl i'r ysgol.
	Sicrhau llefydd parcio ar gyfer yr anabl.	Creu 3 lle parcio i'r anabl gydag ymylfeini	Llefydd parcio wedi eu cwblhau.	Wedi ei gwblhau Arolygu'r sefyllfa i sicrhau nad oes camddefnydd.	
	Ail wneud y cyntedd.	a)Amnewid yr hen ddrysau am ddrysau awtomatig b) Gwella mynediad i'r neuadd.	Cyntedd wedi'i ail-wneud i gyd. Trydedd set o ddrysau dwbl ar gyfer y neuadd.	Wedi ei gwblhau	Mynediad corfforol i'r ysgol wedi gwella.
	Arolwg mynediad yn cael ei wneud pan fydd disgybl ag anabledd penodol yn cael ei dderbyn i'r ysgol	Anghenion disgyblion yn cael eu hasesu mewn trafodaethau â'r disgyblion, rhieni a'r AALl. Ymgymerir â gwaith adfer ble bo hynny'n ymarferol.	Disgyblion yn gallu cael mynediad i'r ysgol.	Parhaus	Mynediad corfforol i'r ysgol yn cael ei wella.
	Neuadd chwaraeon newydd i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a DDA bresennol.	Trafodaethau â swyddogion a chontractwyr AALl.	Neuadd chwaraeon yn cydymffurfio'n llawn.	Wedi ei gwblhau	Cynyddu mynediad corfforol pobl i'r ysgol.
	Gweithdrefnau argyfwng tân.	Llunio cynllun personol ar gyfer		Parhaus	Diogelwch i bob disgybl.

		gadael yr adeilad i bob disgybl sydd â symudedd is o ganlyniad i broblemau corfforol neu broblemau clywed/gweld.			
	Ailddodrefnu neu waith adeiladu newydd.	Anghenion disgyblion yn cael eu hasesu mewn perthynas â disgyblion, rhieni a'r AALl. Ymgymerir â gwaith adfer ble bo hynny'n bosibl: Paent lliwiau gwahanol. Arwyddion teimladwy. Lloriau gwrthslip Ailddodrefnu'r labiau Ail ddylunio'r llyfrgell Carpedi	Adnoddau newydd / ailddodrefnu yn galluogi disgyblion i gael mynediad.	Parhaus	Cynyddu mynediad corfforol i'r ysgol.
Mynediad cwricwlwm	Mae gan yr holl athrawon a Chymhorthwyr Addysgu'r hyfforddiant angenrheidiol i addysgu a chefnogi disgyblion ag amrywiaeth o anableddau.	Sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant ac arweiniad.	Staff yn deall anghenion y disgyblion anabl.	Parhaus.	
	Gwersi'n darparu cyfleoedd i'r holl ddisgyblion gyflawni h.y. maent yn wahanol ac yn cynnwys gwaith gan unigolion, parau, grwpiau bach a'r dosbarth cyfan yn ôl yr angen.	Holl wersi'n cael eu cynllunio ac fe gynhwysir gwahanol weithgareddau. Arweiniad gan y cydlynydd ADY	Disgyblion yn gallu cael mynediad.	Parhaus	Cynnydd yn y mynediad i'r Cwricwlwm Cenedlaethol
	Staff yn cydnabod ac yn cynllunio ar gyfer yr amser a'r ymdrech ychwanegol sydd ei angen ar rai disgyblion anabl.	Rhoddir gwybodaeth i staff am ddisgyblion unigol. Arholiadau – amser ychwanegol, amser i ddarllen.	Disgyblion yn gallu cwblhau'r gwaith a ddisgwylir ohonynt.	Parhaus	Disgyblion yn gallu gwneud eu gorau mewn gwersi ac arholiadau er gwaethaf eu hanabledd.
	Sicrhau bod staff yn gwbl ymwybodol o'r	Hysbysir staff.	Mae gan yr holl ddisgyblion	Parhaus	Mae gan yr holl blant

	angen i sicrhau bod teithiau addysgol ar gael i'r holl ddisgyblion beth bynnag yw eu gallu corfforol neu anghenion arbennig.		fynediad i deithiau addysgol.		gydraddoldeb o ran profiadau.
	Bydd yr holl ddisgyblion yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddoriaeth, drama a gweithgareddau corfforol.	Sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael mynediad i bob rhan o'r cwricwlwm.	Holl ddisgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u hamserlennu a gweithgareddau allgyrsiol.	Parhaus.	Addysg gyflawn i ddisgyblion.
	Dosbarthiadau a llefydd eraill yn cael eu trefnu'n optimaidd ar gyfer disgyblion anabl.	Ail drefnu'r dodrefn er mwyn sicrhau mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn a rhoi cadeiriau ar gyfer pobl sy'n aros gan sicrhau bod y dosbarth yn addas ar gyfer disgyblion anabl.	Disgyblion yn gallu cael mynediad i bob rhan o'r ystafell ddosbarth.	Parhaus	Disgyblion yn gallu cymryd rhan lawn ym mhob dosbarth.
Mynediad i wybodaeth	Staff yn gyfarwydd â thechnoleg ac arferion er mwyn cynorthwyo disgyblion, rhieni a gofalwyr ag anableddau e.e. sut i siarad â dysgwr sydd â nam ar y clyw.	Sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant ac arweiniad.	Staff yn ymwybodol o anghenion disgyblion anabl.	Parhaus.	Cyfathrebu effeithiol.
	Yr ysgol i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn ffordd hawdd ei defnyddio mewn gwersi a chyfarfodydd rhieni e.e. drwy ddarllen allan yn uchel, defnyddio taflunwyr/cyflwyniadau PowerPoint ac ati.	Sicrhau bod gan yr holl ddosbarthiadau fyrddau gwyn a byrddau gwyn rhyngweithiol. Sicrhau hyfforddiant ar gyfer yr holl staff.	Gwybodaeth yn cael ei gyflwyno mewn ffordd glir ac eglur.	Parhaus	Cyfathrebu effeithiol.

ATODIAD 5

Siart broses i ddatblygu ac adolygu Polisi a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb

Sefydlu gweithgor cydraddoldeb. Aelodaeth i ddod o gymuned gyfan yr ysgol a dylai gynnwys:

- Staff ysgol (gan gynnwys llywodraethwyr a'r UDA)
- Myfyrwyr / Disgyblion
- Rhieni a Gofalwyr
- Cymuned ehangach yr ysgol

Llunio amserlen ar gyfer datblygu'r polisi gan nodi dyddiadau cyfarfodydd → Cynnig dyddiad ar gyfer cyflwyniad ffurfiol a mabwysiadu gan y corff llywodraethol

Ystyried canllawiau lleol a chenedlaethol

Tasgau Allweddol (gyda dyddiadau cau)

Cynllun gweithredu	**Polisi cydraddoldeb**
Dewis aelod o staff i gasglu data a gwybodaeth gan gynnwys barn pawb yng nghymuned yr ysgol.	Dewis rhywun i ysgrifennu'r adran *cyd-destun ysgol* yn y polisi
Ystyried ymwneud pellach y rhai sy'n cynrychioli'r amrywiol elfennau cydraddoldeb. Defnyddiwch asesiad effaith cydraddoldeb (gweler Atodiad 6).	Casglu'r holl wybodaeth sy'n benodol i'r ysgol fel y disgrifiwyd yn y canllawiau
Ystyried holl gynlluniau a pholisïau cydraddoldeb sy'n bodoli a chynnwys y camau gweithredu yn y cynllun gweithredu.	Drafftio neu adolygu'r polisi cydraddoldeb.
Llunio cynllun gweithredu ac ail ddrafftio fel bo angen.	

PARHAUS – Monitro'r cynllun gweithredu a chasglu tystiolaeth ar gyfer y deilliannau

Cyflwyno'r polisi a'r cynllun gweithredu i'r llywodraethwyr /cadarnhau gan y llywodraethwyr. Dyddiad adolygu'r cynllun gweithredu wedi ei osod

Sicrhau fod y polisi a'r cynllun gweithredu yn cael eu cyflwyno yn effeithiol i'r gymuned ysgol gyfan. Ystyried cynhyrchu fersiynau crynhoi i fyfyrwyr/disgyblion a rhieni/gofalwyr

ATODIAD 6

Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (AEC)

Dull awgrymedig o gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb mewn ysgolion.

Beth yw Asesiad Effaith Cydraddoldeb?

Mae AEC yn fodd o ddadansoddi effaith polisi, ymarfer neu brosiect ar grwpiau a warchodir yn gyfartal neu os gallai gael effaith anghyfartal ar un neu fwy o grwpiau penodol.

Dylai AEC ein helpu i sicrhau nad ydym yn gwahaniaethu yn anghyfreithlon yn erbyn unigolion neu grwpiau penodol a'n bod yn hyrwyddo ein dyletswyddau cadarnhaol ar gydraddoldeb. Mae'n fodd o sicrhau ein bod yn cyfarfod anghenion amrywiol holl ddisgyblion a staff.

Dylai AEC helpu i sicrhau fod amrywiaeth, cydraddoldeb ac ymgynnwys yn rhedeg trwy bob rhan o fywyd yr ysgol.

Nid yw hyn yn golygu cynnal AEC ar gyfer bob polisi ac ymarfer o hyn ymlaen. Mae'n broses o feddwl y gellir ei chynnwys yn adolygiad polisïau fel rhan o'r cylch adolygu polisïau. Gellir hefyd ystyried AEC ar gyfer holl bolisïau newydd a phrosiectau penodol, e.e. defnydd o fuarth yr ysgol.

Mae'n fwy na dim ond gwaith papur. Mae'n fater o synnwyr cyffredin wrth feddwl am yr effaith gal polisïau a gweithredoedd ei gael ar; hil, rhyw, ailbennu rhyw, anabledd, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, oedran, priodas a phartneriaeth sifil a beichiogrwydd a mamolaeth.

Gall yr effaith fod yn gadarnhaol, yn niwtral neu yn negyddol.

Os na ellir cyfiawnhau'r effaith ar wahanol grwpiau, pa atebion y gallwn eu hystyried i oresgyn y sefyllfa hon?

Cwestiynau allweddol:

Beth yw nodau'r polisi neu'r ymarfer?

Amlinellu prif nodau ac amcanion y polisi neu'r ymarfer?

Ystyried data a gwybodaeth sy'n bodoli a chanlyniadau ymgynghori?

Ystyried unrhyw faterion caffael a phartneriaeth?

Asesu'r effaith tebygol?

Ystyried unrhyw effaith anffafriol neu anghyfreithlon?

Penderfynu sut i symud ymlaen?

Llunio cynllun gweithredu?

Gwneud trefniadau i fonitro ac adolygu'r polisi neu ymarfer?

Cyhoeddi canlyniadau'r asesiad?

Beth yw'r canlyniadau penodol rydych yn gobeithio eu gweld?

Pwy y bwriedir i elwa o'r polisi neu'r ymarfer hwn? (e.e. holl staff/myfyrwyr?)

A allwch nodi unrhyw effeithiau anffafriol neu negyddol posib wrth weithredu'r polisi, ymarfer neu brosiect ar unigolion neu grwpiau penodol – ar sail eu tarddiad ethnig, cefndir diwylliannol, ffydd, anabledd, AAA, rhyw, tueddfryd rhywiol, oedran, a meini prawf arall (er enghraifft SIY, ceiswyr lloches)?

Nodi pwy a sut?

A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol? Ar bwy a sut? Pa dystiolaeth sydd gennych i hysbysu eich meddwl? Gall hyn gynnwys data, e.e. data cyrhaeddiad.

Os ydych yn meddwl bod effaith negyddol ar unigolion neu grwpiau penodol mae'n bwysig casglu data a gwybodaeth berthnasol a dibynadwy.

Pwy allech eu cynnwys yn eich adolygiad polisi/ymarfer neu gynnig prosiect a fydd yn eich helpu i ganfod unrhyw effaith gwahaniaethol?

Bydd cynnwys plant, pobl ifanc, staff ac aelodau o'r gymuned a allai gael eu heffeithio gan eich polisi, ymarfer neu brosiect yn rhoi'r cyfle gorau i ganfod effaith, edrych ar atebion a chefnogi gweithrediad.

Os ydych wedi meddwl am effeithiau polisi neu weithred ac wedi cynnwys pobl yn hyn, mae'n bosib nad ydych wedi darganfod yr effaith gwahaniaethol tebygol ar unigolion neu grwpiau penodol. Mae hynny'n iawn, bydd hynny'n digwydd. Y pwynt yw cadw hyn mewn cof yn ystod y broses monitro ac adolygu a chaniatáu hyblygrwydd i ymateb i wybodaeth newydd.

D.S. Mae'r ddogfen a gyhoeddwyd gan CLILC o'r enw "*Risgiau Cydraddoldeb Cyffredin mewn Addysg*" yn rhoi mwy o ganllawiau ar asesu effaith mewn ysgolion.